

Annwyl Cyfarwyddwr

## **Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol**

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedwar egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan ein gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn. Roedd y gweithgarwch hwn yn cynnwys y canlynol:

- Yn 2017/18, ymgynghorodd yr arolygwyr â staff a defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn profi afiechyd meddwl fel rhan o'n gwaith i gefnogi adolygiad AGIC o wasanaethau iechyd meddwl cymunedol .

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Caerfyrddin  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Heol Picton  
Caerfyrddin  
SA31 3BT  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
☎ 0872 437 7303  
✉ [CIWLocalAuthority@gov.wales](mailto:CIWLocalAuthority@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Carmarthen Office  
Welsh Government  
Government Buildings  
Picton Terrace  
Carmarthen  
SA31 3BT  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Gweithgaredd â ffocws ym mis Mawrth 2019 i adolygu cynnydd y Prosiect Brysbennu Iechyd Meddwl. Cynllun peilot gyda Heddlu Gwent i roi gweithwyr proffesiynol yn ystafell reoli'r heddlu i gynorthwyo gyda phobl sydd ag anghenion iechyd meddwl.
- Hunanwerthusiad o'r Gwasanaethau i Oedolion a gyflwynwyd i AGC yn gynharach eleni.
- Cyfarfod her y Gwasanaethau Plant.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod Adolygu Perfformiad blynyddol ar 2 Ebrill 2019.

### Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Mae'r awdurdod lleol yn elwa ar dîm uwch-reolwyr sydd â dealltwriaeth glir o'i gryfderau a'i feysydd her ei hun yn y gwasanaethau oedolion a phlant. Mae fframwaith llywodraethu cryf ar waith sy'n ysgogi datblygiad a newidiadau diwylliannol ac sydd wedi'i gefnogi'n llawn gan aelodau etholedig. Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio ei asesiad poblogaeth i nodi a datblygu gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi gwneud peth cynnydd gyda'i gronfa ddata rheoli achosion newydd, ond mae cael gwybodaeth am berfformiad ohoni yn parhau i fod yn her. Mae'n gadarnhaol nodi bod y gwasanaethau iechyd meddwl wedi sefydlu system integredig ar gyfer cofnodi gwybodaeth defnyddwyr gwasanaeth. Mae datblygiadau yn y dyfodol yn cynnwys cael un system gofnodi i gynorthwyo Timau Dyletswydd Gwent gyda rhannu gwybodaeth a sicrhau bod arfer yn gyson.

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i adeiladu ar ei arfer o gael sgysiaid ystyrlon gyda phobl am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Cafwyd datblygiadau cadarnhaol yn y ffordd y caiff gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA) eu darparu a phenodwyd prif swyddog i ddatblygu'r defnydd o gronfa ddata DEWIS i alluogi staff a phobl yn y gymuned i gael gafael ar wybodaeth yn hawdd ac yn gyflym o'r wefan. Mae'r awdurdod lleol yn dechrau gweld effaith gadarnhaol cynnig IAA, gyda 95% o'r bobl a gafodd gyngor a chymorth heb fod angen cysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y 6 mis dilynol.

Mae angen gwneud mwy o waith yn y gwasanaethau plant ac oedolion i ymgorffori arfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ymhlith y gweithlu. Mae'r holl dimau rheng flaen yn y gwasanaethau plant wedi ymgymryd â hyfforddiant pellach ar gyfathrebu cydweithredol gan alluogi staff i gynnal sgysiaid dyfnach a mwy archwiliol â phlant a'u teuluoedd i'w helpu i nodi'r hyn sydd o bwys iddynt.

- Pobl – llais a rheolaeth

O ran diwallu anghenion plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal, mae'r weledigaeth o gael gwasanaeth sy'n cael ei lywio gan seicoleg wedi arwain at fuddsoddi yn y Tîm Cefnogi Ymyriadau Amlddisgyblaethol a datblygiad darpariaeth breswyl yn yr awdurdod lleol gan ddefnyddio cyllid o'r Gronfa Gofal Integredig. Mae hyn yn dangos ymrwymiad yr awdurdod

lleol i ddatblygu darpariaeth lleoliadau therapiwtig a gwella argaeledd a dewis lleoliadau ac atal yr angen i blant gael eu lleoli ymhell o'u cymuned.

Mae heriau'n parhau gyda recriwtio gofalwyr maeth sy'n cyfyngu ar y dewis o leoliadau i bobl ifanc sy'n dod i dderbyn gofal gan arwain at leoliadau'n chwalu neu leoliadau y tu allan i'r sir. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y diffyg hwn ac wedi adolygu ei delerau a'i amodau ar gyfer gofalwyr maeth gan arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau ac asesiadau.

Mae recriwtio a chadw staff yn y Gwasanaethau Plant yn her barhaus. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod yr heriau hyn a'u heffaith ar staff o fewn timau plant penodol ac mae'n parhau i adolygu ei gynllun ar gyfer y gweithlu a'i fframwaith datblygiad gyrfa. Mae gwaith diweddar wedi dechrau gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar fentrau recriwtio.

Mae adborth gan ofalwyr wedi dangos gwelliant mewn gwasanaethau gyda gweithwyr cymorth gofalwyr a 'Carers Connect' yn rhan o'r gwasanaeth IAA. Mae hyn wedi galluogi ymateb cyflym i ofalwyr er mwyn eu cefnogi yn eu rôl. Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio cyllid o'r Gronfa Gofal Integredig i ddatblygu nifer o ffyrdd creadigol o weithio gyda gofalwyr sydd wedi arwain at rai rheolwyr yn cynnal eu grwpiau cefnogi eu hunain.

Mae'r awdurdod lleol wedi canolbwyntio ar gefnogi'r gweithlu gyda hyfforddiant ar asesu galluedd meddyliol a phennu'r hyn sydd orau i berson. Mae hyn wedi arwain at arfer gwell gan staff sy'n ystyried eu hopsiynau ar gyfer cymryd risgiau cadarnhaol.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Mae'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn parhau i gynnig ymatebion cyflym i anghenion meddygol a chymdeithasol pobl yn ogystal â gwasanaethau cwympiadau ac ailalluogi. Mae cyfranogiad yng nghynllun peilot cwympiadau Gwasanaethau Ambiwylans Gorllewin Cymru y GIG wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau derbyn pobl i ysbytai'n ddiangen. Yn ogystal, mae rhoi cynllun peilot 'pimp my zimmer' ar gyfer fframiau cerdded lliw ar waith rhwng yr awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r gwasanaeth ambiwlans wedi lleihau nifer y cwympiadau y mae pobl hŷn yn eu cael mewn gwasanaethau preswyl.

Yn y Gwasanaethau Plant, mae nifer gynyddol o blant a phobl ifanc y mae angen gofal a chymorth dwys arnynt gan yr awdurdod lleol oherwydd eu hanghenion cymhleth neu eu hymddygiad peryglus. Mae'r awdurdod lleol wedi cael trafferth i sicrhau trefniadau maethu priodol sy'n diwallu anghenion y bobl ifanc. Mae'n gweithio ar lefel ranbarthol a lleol i ymateb i'r her o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal yn briodol, gan sicrhau bod digon o ddewis ac argaeledd lleoliadau i ddiwallu anghenion y plant.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio ar y cyd â'r bwrdd iechyd ar greu model ymyrryd yn gynnar i alluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at gymorth iechyd meddwl ar oed cynharach. Ynghyd â phartneriaid ranbarthol, mae'n datblygu model ymyrryd yn gynharach sy'n cynnwys cynadleddau grŵp i deuluoedd, cymorth gyda Gorchmynion

Gwarcheidiaeth Arbennig, cyfryngu a gwella'r gwasanaeth Ymylon Gofal sy'n dangos newid mewn arfer a ffocws ar gydweithio â phlant a theuluoedd.

Yn y gwasanaethau oedolion mae pwysau'n parhau oherwydd gwendidau yn y sector gofal cartref lle mae heriau recriwtio ac anallu i ddarparu pecynnau gofal ar fyr rybudd a phecynnau gofal yn cael eu dychwelyd gan ddarparwyr annibynnol. Mae hyn yn arwain at oedi i ryddhau pobl o ysbytai. Mae'r bwrdd comisiynu rhanbarthol yn archwilio cyfleoedd i gomisiynu gofal cartref ar y cyd ac mae wedi datblygu cysylltiadau â Choleg Gwent i gynyddu hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr ieuchyd a gofal cymdeithasol yn y rhanbarth a'r nifer sy'n ei dderbyn, gydag awdurdod lleol Caerffili yn cymryd rôl flaenllaw.

Sefydlwyd Grŵp Adolygu Achosion Oedolion a Phlant ar y Cyd i ystyried pob atgyfeiriad am APR a CPR sydd wedi gwella dysgu a rennir ar draws y ddau sector a datblygu gweithio gwell ar y cyd.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofawyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Mae trefniadau partneriaeth ar lefel leol a rhanbarthol yn parhau i ddatblygu ac aeddfedu. Mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol mewn comisiynu, cyllidebau cyfun a chynyddu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gyflwynir yn rhanbarthol. Er mwyn i'r bartneriaeth ar y cyd hon weithio, mae cael ymrwymiad sylweddol gan bob uwch-reolwr yn hanfodol. Mae her wrth gydbwyso ymrwymiad amser i ymgymryd â gwaith datblygu a chydbwyso hyn â'r pwysau a'r llwythi gwaith cynyddol o reoli busnes craidd.

Ym mis Mawrth, gwnaethom ymweld â'r Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl a oedd yn cael ei dreialu gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid. Clywsom adborth cadarnhaol gan bartneriaid gyda'r heddlu'n gwerthfawrogi'r cymorth i sicrhau penderfyniadau diogel ac atebol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl. Bydd Prifysgol Abertawe yn gwerthuso effeithiolrwydd y prosiect hwn gyda'r bwriad o'i ddatblygu ymhellach.

### Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu wedi'i threfnu ar gyfer 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Bydd AGC yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019 gan ganolbwyntio ar yr hunanwerthusiad o waith atal a gwaith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/2020 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Mae'n debygol y bydd ein gweithgaredd â ffocws gyda'r awdurdod lleol yn cynnwys rhai cwestiynau dilynol i ganfyddiadau'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a'r rheini sydd wedi gadael gofal yn y gwasanaethau plant; Bydd ein gwaith ymgysylltu yn y gwasanaethau oedolion yn canolbwyntio ar bobl dros 65 oed yn y gymuned a gwasanaethau dydd o bosibl. Efallai y bydd hyn yn newid yn sgil materion sy'n dod i'r amlwg.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Sharon Eastlake  
**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro**  
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.  
SAC  
AGIC  
Estyn